# Gwerthusiad o'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post - Crynodeb Gweithredol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil Cymdeithasol | Rhif: 06/2012

Comisiynwyd SQW gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post (PODF) ym mis Mehefin 2011. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad desg o ddata a dogfennaeth, arolwg graddfa fawr dros y ffôn gyda 144 o'r 217 o fuddiolwyr grant, astudiaethau achos manwl gyda chwe buddiolwr, ymgynghoriadau â staff rheoli Llywodraeth Cymru, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allanol (yn cynnwys cynrychiolwyr Swyddfa'r Post Cyfyngedig, Llais Defnyddwyr Cymru, Grŵp y Post Brenhinol yng Nghymru, a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri), ac arolwg graddfa fach dros y ffôn gydag ymgeiswyr aflwyddiannus a rhai na wnaeth gais i'r PODF.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau**

Y prif ysgogiad ar gyfer cyflwyno'r PODF yn 2009 oedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn nogfen Cymru'n Un i "ailsefydlu ac ailffocysu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post". Rhwng mis Ionawr 2009 a mis Hydref 2010, dyfarnwyd 229 o grantiau (Rowndiau 1 i 4 o'r Gronfa), gyda chyfanswm gwariant gwerth £4.03 miliwn. Yn ogystal, cyfrannodd tua thri chwarter y buddiolwyr yn ariannol tuag at gostau. Tueddai'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y PODF i ganolbwyntio ar wneud gwelliannau ffisegol i fusnesau di-SP presennol yn hytrach nac arallgyfeirio i feysydd newydd. Fodd bynnag, bu rhywfaint o arloesedd a chreadigrwydd ymhlith ymgeiswyr o ran y gweithgareddau a gyflawnwyd.

Dangosodd adborth gan fuddiolwyr lefel uchel o fodlonrwydd gyda'r prosesau cyflenwi, yn cynnwys gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru cyn ac ar ôl derbyn y grant. Defnyddiwyd rhwydweithiau a oedd yn bodoli'n barod i gyrraedd y gynulleidfa darged, ac roedd y Gronfa yn ddigon hyblyg i alluogi rheolwyr i ymateb i anghenion oedd yn newid. Dangosodd y dystiolaeth bod y PODF, yn ystod y cyfnod cafodd ei chynnig, yn llenwi bwlch

gwirioneddol yn y farchnad ar gyfer cymorth wedi ei dargedu'n benodol at swyddfeydd post, ac ni fyddai 69% o'r newidiadau a ariannwyd gan y grant wedi eu cyflawni heb y cymorth (h.y. roeddent yn ychwanegiad llawn).

Chwaraeodd y PODF rôl bwysig mewn cynyddu trosiant a phroffidioldeb busnes dim-SP, a gwella hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau SP a dim-SP ar gyfer mwyafrif y buddiolwyr. Erbyn hyn mae Is-bostfeistri yn fwy hyderus yn y rhagolygon ar gyfer eu busnes, ac mae rhai wedi eu hannog i arallgyfeirio a buddsoddi ymhellach yn eu busnes dim-SP.

Mae'r PODF hefyd wedi cael effeithiau cadarnhaol ar economïau a chymunedau lleol, yn cynnwys:

- gwella cyfle am swyddi yn oddeutu hanner y busnesau a gyfranogodd
- cynyddu hyder ymhlith busnesau yn y rhagolygon economaidd lleol yn fwy cyffredinol
- annog pobl i wario arian yn yr economi leol
- galluogi cynnyrch lleol i gael ei werthu'n uniongyrchol i drigolion (ac felly cefnogi cadwyni cyflenwi lleol)
- gwella delwedd/apêl yr ardal (gyda manteision i dwristiaeth)
- galluogi parhad mewn mynediad at wasanaethau swyddfa'r post
- gwella lles cymunedol.

Roedd y PODF yn llai effeithiol mewn cyfrannu at leihau tlodi/anghydraddoldebau/anfantais (un o bedwar maen prawf allweddol y Gronfa), mewn gwella sgiliau a lleihau allgau ariannol (er yn anuniongyrchol, drwy gefnogi gweithgareddau dim-SP, golygai'r Gronfa bod swyddfeydd post yn aros ar agor).

Ar y cyfan, o fewn y paramedrau a osodwyd gan yr ymchwil, gwelsom fod lefelau uchel o ychwaneged, a darparodd y Gronfa werth rhesymol am arian (o ran cost ar gyfer pob busnes a gynorthwywyd).

Dangosodd y PODF Werth Ychwanegol Strategol, er enghraifft drwy feithrin hyder yn y rhagolygon ar gyfer twf, annog uwchraddio gweithgareddau, cyflawni

canlyniadau o safon uwch nag a allai fod fel arall, gweithredu fel catalydd ar gyfer newid, ac annof Is-bostfeistri i symud tuag weithgareddau sy'n cyfrannu at well lles cymunedol.

Yn ôl y dystiolaeth a odd ar gael i ni, gwelsom fod y Gronfa wedi bodloni ei hamcanion yn rhannol. Cynyddodd y Gronfa drosiant a phroffidioldeb busnesau dim-SP, ac felly gwella hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau busnes SP a dim-SP. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mwy wedi ei gyflawni mewn gwella perfformiad ffrydiau busnes *sy'n bodoli'n barod* nac mewn annog gweithgareddau *newydd*.

Mae hyn yn bwysig mewn cyfnod lle mae swyddfeydd post wedi wynebu heriau mawr o golli'r busnes swyddfa'r post craidd blaenorol, yn bennaf o ganlyniad drosglwyddo taliadau yn uniongyrchol i gyfrifon banc derbynwyr. Mae'r methiant i ysgogi ymatebion mwy radical er mwyn cynnal hyfywedd busnes yn perthyn, o leiaf yn rhannol, i sefydlu'r PODF - maint y cymorth oedd ar gael a sut y cafodd hyn ei gyflwyno yn y broses gais.

Efallai y byddai cymorth refeniw wedi cynorthwyo i ddatblygu syniadau busnes newydd a chynlluniau ar gyfer arallgyfeirio, ond ni chafodd hyn ei ddeall yn dda na'i ddefnyddio. Gwnaeth y Gronfa gynnydd tuag at ei hamcanion cymdeithasol, gan alluogi parhad mewn mynediad at wasanaethau swyddfa'r post a gwella lles cymunedol. O ganlyniad gwelsom ddim ond ychydig o dystiolaeth bod y Gronfa wedi bod o fudd i'r rhai cymdeithasol ac ariannol ddifreintiedig.

**Argymhellion**

Gwelsom fod Is-bostfeistri yn dal i wynebu heriau ynglŷn â chynnal hyfywedd busnesau dim-SP a SP: cefnogwyd yr achos o blaid rhyw fath o ymyrraeth barhaus yng Nghymru gan randdeiliaid allanol a buddiolwyr y prosiect. Roedd yr angen yn ymwneud yn rhannol, ond nid yn llwyr, ag arian; gwelsom dystiolaeth o 'fethiant gwybodaeth' ymhlith Is-bostfeistri ynglŷn â'r mathau o newidiadau a allai wella hyfywedd economaidd a

chynaliadwyedd, yn ogystal â diffyg cyfalaf i wneud y newidiadau hyn.

Os darperir cymorth i Is-bostfeistri yng Nghymru yn y dyfodol (yn ychwanegol at gymorth DU cyfan), rydym yn argymell y dylai'r cynllun ystyried y cyd-destun cenedlaethol a'r dysgu a gafwyd drwy weithredu'r PODF a'r gwerthusiad hwn. Crynhoir hyn isod.

- Dylid paratoi achos clir, rhesymegol gyda thystiolaeth dda o blaid ymyrraeth, yn amlinellu'r sail resymegol dros ymyrraeth (yn 2011/12) gyda thystiolaeth gwaelodlin gefnogol (yn cynnwys tystiolaeth a fydd yn ategol i gefnogaeth arall), nodau ac amcanion, a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer allbynnau, canlyniadau ac effeithiau.

- Mae datblygu amcanion CAMPUS yn arbennig o bwysig fel y gellir mesur cynnydd, a rhoi tystiolaeth am gynnydd, yn fwy effeithlon yn y dyfodol.

- Dylid diffinio diben a chwmpas unrhyw gronfa newydd mewn perthynas â chymorth Llywodraeth y DU ar gyfer swyddfeydd post, ac yn arbennig ariannu er mwyn datblygu'r modelau 'Prif Swyddfa'r Post' a 'Swyddfa'r Post Lleol'. Hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, parthed rhaglenni eraill sydd wedi eu hanelu at hyfforddiant sgiliau a marchnata, cymorth ar gyfer cynllunio busnes, cynlluniau arallgyfeirio manwerthu gwledig, a grantiau cyfalaf ar gyfer busnesau gwledig (yn cynnwys y rheini a ddarperir gan awdurdodau lleol).

- Dylid diffinio maint a chynnwys y cymorth sydd ar gael i Is-bostfeistri mewn perthynas ag amcanion datganedig yr ymyrraeth a thystiolaeth ar faint a natur yr angen, yn ogystal â'r cronfeydd cyffredinol sydd ar gael, y grwpiau targed disgwyliedig a daearyddiaeth.

- Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar dystiolaeth cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd busnes, er mwyn sicrhau bod y busnesau a gefnogir yn dod yn economaidd hyfyw ac yn gallu codi'r arian sydd ei angen eu hunain.

- Er mwyn cynorthwyo hyn, dylai ariannu refeniw gael ei ddarparu - neu ei gysylltu i'r cynllun - gan alluogi mynediad at gymorth allanol wrth brofi dichonoldeb syniadau newydd, ar gyfer datblygu cynlluniau busnes a darparu hyfforddiant.

- Byddai rhagor o bwyslais ar feithrin gallu ar gyfer Is-bostfeistri yn cynorthwyo i greu cynigion arallgyfeirio mwy arloesol, creadigol a masnachol

gadarn. Yn y cyd-destun hwn dylai Llywodraeth Cymru wella'r eglurhad ynglŷn â'r cymorth hwn a'i ddiben, ac ar gyfer beth y gellid ei ddefnyddio.

- Os bydd yr amcanion, yn parhau wedi eu canolbwyntio ar fudd cymunedol, fel y byddem yn disgwyl iddynt fod, yna dylai ymgynghori â'r gymuned (a thystiolaeth gefnogol) chwarae rhan gryfach yn y broses gais ac asesu.

- Dylid datblygu gwell systemau monitro perfformiad er mwyn canfod allbynnau, canlyniadau ac effeithiau - dylai hyn gynnwys cyfathrebu ffurfiol â buddiolwyr *wedi* i'r newidiadau gael eu gwneud i asesu effeithiau a chynaliadwyedd. Dylid hefyd casglu tystiolaeth, efallai drwy awdurdodau lleol, y mae eu cylch gwaith yn cynnwys lles cymunedol, ac sydd efallai yn y sefyllfa orau i lunio barn ar y maint a'r math o effeithiau a deimlir o fewn y cymunedau.

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau ar gyfer cyflenwi, yn arbennig gweithio drwy, neu mewn partneriaeth agos â, chyrff/sefydliadau sector preifat eraill sy'n darparu cymorth busnes mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â thrwy gyflenwi uniongyrchol.

- Dylid holi Is-bostfeistri yn ystod y cam gwneud cais i ddarparu gwybodaeth sy'n dangos angen (ar gyfer y swyddfa bost ac ar gyfer y gymuned ehangach); hefyd pam fod angen ariannu *cyhoeddus* (h.y. tystiolaeth na fyddai adnoddau mewnol a benthyca gan fanc yn briodol).

Awdur: SQW

ISBN: 978 0 7504 6970 8